CYFARFOD	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
DYDDIAD	**13 Tachwedd 2025**
TEITL	**Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 a'r Archwiliad perthnasol**
PWRPAS	**Cyflwyno –** • **Datganiad o'r Cyfrifon ôl-archwiliad;** • **Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru;** • **Llythyr Sylwadau (Atodiad 4).**
ARGYMHELLIAD	**Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr sylwadau a'r datganiad o gyfrifoldebau am y datganiadau o'r cyfrifon**
AWDUR	**Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid**

---

1. CYFRIFON 2024/25

Llwyddodd y Cyngor i gwblhau'r Datganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2024/25 a'i ryddhau i Archwilio Cymru ar 30 Mehefin 2025. Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon 2024/25 (amodol ar archwiliad) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 11 Medi 2025, pryd bu craffu priodol.

Mae'r cyfrifon terfynol yn dilyn archwiliad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Tachwedd 2025.

2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Nodwyd yng nghyfarfod Medi fod y cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar eu prif ddarganfyddiadau.

3. DATGANIADAU ARIANNOL ÔL-ARCHWILIAD AM 2024/25

Cyflwynir yma y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2024/25. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2 o adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a chymeradwyo'r –

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd
- Datganiad o'r Cyfrifon 2024/25 (ôl-archwiliad)

5. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ymofyn i'r person sy'n llywyddu'r cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electronig. (Atodiad 4 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r uchod.

6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y person sy'n llywyddu'r cyfarfod a'r Pennaeth Cyllid.